Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Gwernyfed
# Aberllynfi
# Aberhonddu
# Powys
# LD3 0SG

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Gwernyfed

Mae Ysgol Uwchradd Gwernyfed yn ysgol 11-19 cyfrwng Saesneg yn ne Powys, sy'n gwasanaethu dalgylch eang, sy'n wledig yn bennaf.

Mae 497 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, o gymharu â 490 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2013.

Mae tua 5% o'r disgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Nid yw unrhyw un o'r disgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron pob un o'r disgyblion o gefndir Gwyn Prydeinig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith, ac ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae gan ryw 20% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 23%. Mae gan ryw 0.5% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.2%.

Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd yn 2011. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, un dirprwy bennaeth, un pennaeth cynorthwyol, a'r rheolwr busnes.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn gysylltiedig â'r cwricwlwm.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn dangos ymagwedd ymddiriedus a chyfunol at arweinyddiaeth, ac fe gaiff ei weledigaeth am gymuned ofalgar ei rhannu'n effeithiol. Caiff ei gefnogi'n briodol gan dîm ymroddgar o staff. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n ddigon da ar agweddau allweddol ar waith yr ysgol, ac nid ydynt yn ddigon trylwyr. Felly, mae safbwyntiau arweinwyr am ddarpariaeth a safonau ar draws yr ysgol yn rhy gadarnhaol. O ganlyniad, nid yw arweinyddiaeth wedi arwain at welliannau digonol neu gynaledig yn ansawdd yr addysgu a'r asesu, presenoldeb, agweddau disgyblion at ddysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni, gan gynnwys datblygu eu medrau.

At ei gilydd, mae gan Ysgol Uwchradd Gwernyfed ethos gofalgar a pharchus lle mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda, ar y cyfan. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas dros gyfnod, mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau buddiol niferus a gynhelir y tu allan i wersi. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, tynnir sylw ychydig o ddisgyblion yn rhy hawdd ac maent yn gwneud cynnydd annigonol, gan darfu ar ddysgu disgyblion eraill yn ogystal.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol cyffredinol briodol ar gyfer pob un o'r athrawon. Fodd bynnag, nid oes ganddi ymagwedd ddigon cydlynus at ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r addysgu a'r asesu yn herio disgyblion yn ddigon da.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |

## Argymhellion

A1 Gwella'r cynnydd y mae pob un o'r disgyblion yn ei wneud mewn gwersi, gan gynnwys wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd a datblygu'r Gymraeg

A2 Gwella presenoldeb yn gyffredinol, ac agweddau ychydig o ddisgyblion at ddysgu

A3 Cryfhau ansawdd yr addysgu a'r asesu

A4 Gwella ansawdd ac effaith yr arweinyddiaeth ar bob lefel, yn enwedig trwy gryfhau prosesau gwella

A5 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau:  Digonol ac angen gwelliant

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn ystod gwersi.  Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn addas, ac yn ei ddefnyddio i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'u pynciau.  Er enghraifft, mewn cymdeithaseg, mae disgyblion y chweched dosbarth yn cymhwyso ac yn dyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gryfderau a chyfyngiadau arsylwadau cudd ac agored cyfranogwyr yn effeithiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud a pharchus ar yr athro a'u cyfoedion ac maent yn awyddus i gyfrannu at drafodaethau dosbarth.  Maent yn fodlon rhannu eu syniadau ac yn gwneud cyfraniadau pwrpasol at drafodaethau grŵp neu drafodaethau dosbarth, gan ddefnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn dda ar draws llawer o feysydd y cwricwlwm.  Er enghraifft, mewn gwersi celf, maent yn trafod yn hyderus sut mae eu gwaith yn cymharu a chyferbynnu â gwaith arlunwyr enwog, fel yr effaith peintio ombr a ysbrydolwyd gan Banksy.  Mae ychydig o ddisgyblion yn cynnig atebion estynedig ac ystyriol i gwestiynau wrth ddisgrifio cymeriad Gerald yn 'An Inspector Calls', er enghraifft.  Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn darparu atebion rhy syml yn unig, ac nid ydynt yn ehangu ar eu syniadau yn ddigonol.  Yn aml, mae hyn oherwydd diffyg her gan eu hathrawon.

Gall llawer o ddisgyblion ddewis a dethol gwybodaeth berthnasol yn hyderus o ystod addas o destunau.  Mae gan lawer ohonynt afael gadarn ar resymu a dod i gasgliad, er enghraifft mewn hanes pan fyddant yn dehongli ffynonellau ar ddelio â bywyd yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.  Mae llawer o ddisgyblion yn dangos empathi â'r cymeriadau y maent yn darllen amdanynt mewn gwersi Saesneg sydd, yn ei dro, yn eu helpu i ddatblygu eu hatebion i themâu a materion, fel creu tensiwn yn 'The Woman in Black'.  Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio medrau darllen yn ddigon da i nodi gwybodaeth berthnasol, ac mewn ychydig o bynciau, maent yn dibynnu'n ormodol ar gopïo testun.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd.  Mae eu hysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ac yn cyfleu ystyr yn gydlynus.  Er enghraifft, defnyddiant iaith a thechnegau priodol i ysgrifennu'n berswadiol at Senedd yr Unol Daleithiau ynghylch helpu San Francisco i'w hamddiffyn ei hun rhag effaith daeargrynfeydd.  Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn briodol ac yn ei defnyddio'n addas i ysgrifennu â chywirdeb technegol cadarn.  Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu yn aml ac nid ydynt yn atalnodi eu gwaith yn hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol i wahanol gyd-destunau a phynciau pan fyddant yn cael cyfle i wneud hynny.  Mae hyn yn cynnwys defnyddio eu medrau data yn sicr mewn daearyddiaeth i dynnu llun graffiau hinsawdd cywir i gymharu tymheredd a gwlybaniaeth.  Mae disgyblion mwy abl yn cyfrifo effeithlonrwydd cymharol gwahanol degellau yn hyderus.  Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn tynnu llun graffiau nac yn labelu graffiau'n ddigon gofalus na gyda chywirdeb digonol, oni bai y rhoddir strategaethau clir iddynt eu dilyn.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sylfaenol ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, defnyddiant TGCh yn fedrus i ymchwilio, creu cyflwyniadau, dogfennau Word a thaenlenni excel. Mewn technoleg, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg wedi'i chynorthwyo gan gyfrifiadur i greu dyluniad 2D o fframiau lluniau ffynci. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw disgyblion yn datblygu medrau TGCh mwy soffistigedig ar draws y cwricwlwm.

Pan gânt eu hannog i wneud hynny, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Er enghraifft, mewn drama, mae disgyblion yn arbrofi ag agweddau ar ystum a thôn y llais wrth ddatblygu golygfa o 'Teachers' gan John Godber. Mewn gwersi Saesneg, mae disgyblion yn datblygu syniadau gwreiddiol yn ddychmygus wrth ysgrifennu cerdd ar thema ein byd llygredig, sy'n adlewyrchu arddull y bardd Brian Patten. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda, er enghraifft mewn gwersi addysg gorfforol pan fyddant yn gweithio'n llwyddiannus mewn parau a grwpiau i ddangos cydlynu cadarn wrth basio a saethu mewn pêl-rwyd. Maent yn datblygu eu medrau meddwl yn addas, er enghraifft wrth gymharu a thrafod dau graff yn dangos nodau lliniaru coronafeirws mewn gwers addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, mae disgyblion yn or-ddibynnol ar gymorth, ac yn dibynnu'n ormodol ar yr athro i gynnig strategaethau i'w galluogi i fynd i'r afael â phroblemau, a'u datrys.

Yn gyffredinol, prin yw'r cynnydd a wna disgyblion o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Mae mwyafrif y disgyblion yn ynganu'n dda wrth siarad Cymraeg, er nad oes gan leiafrif ohonynt yr hyder i siarad Cymraeg o flaen eu cyfoedion. Gall y disgyblion mwy abl frasddarllen a llithrddarllen i adalw a rhesymu o destunau syml yn Gymraeg. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae tua hanner y garfan yn ennill cymhwyster lefel 2. Ar draws yr ysgol, mae defnydd disgyblion o'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg yn gyfyngedig.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion mewn llawer o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn agos at ddisgwyliadau, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae deilliannau ar gyfer dysgwyr mwy abl yn ystod y cyfnod hwn yn amrywiol. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn perfformio'n gymharol dda yn unol â'u targedau dysgu. Mae perfformiad yn y chweched dosbarth wedi gwella dros gyfnod, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cwblhau'r cyrsiau y maent yn eu dechrau. Mae perfformiad yn cyd-fynd â'r perfformiad disgwyliedig ar gyfer graddau A*-C ar y cyfan, ond mae islaw'r perfformiad disgwyliedig ar gyfer graddau A*-A.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfarch ymwelwyr yn gynnes ac yn dangos parch a chwrteisi atynt. Mae'r disgyblion hyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio sy'n codi. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol, ac yn elwa ar ystod y profiadau dysgu a'r gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir. Mae'r disgyblion hyn yn teimlo eu bod yn cael cymorth da, ac yn credu bod gan yr ysgol ddealltwriaeth dda o'u hanghenion unigol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn ymateb yn ddigon da pan fyddant yn rhannu pryderon neu ofidiau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon, ac yn barod i ddysgu. Maent yn mynd i'r afael â thasgau sydd o ddiddordeb iddynt â brwdfrydedd ac yn canolbwyntio'n dda ar eu dysgu. Mae'r disgyblion hyn yn cynorthwyo'i gilydd yn dda yn ystod gweithgarwch grŵp. Mae disgyblion mwy abl yn gweithio'n gynhyrchiol mewn grwpiau bach, er enghraifft wrth drafod gwaith gwirfoddolwr yn Gymraeg. Yn ychwanegol, mae gan lawer o ddisgyblion agwedd ofalgar tuag at bobl eraill, er enghraifft wrth gynorthwyo'i gilydd mewn gwersi drama. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae tarfu ar lefel isel gan ychydig o unigolion, bechgyn yn bennaf, yn rhwystro eu dysgu nhw, a dysgu disgyblion eraill.

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn dangos gwydnwch wrth sicrhau cydbwysedd yn eu hastudiaethau ar draws ystod o gyrsiau, y mae rhai ohonynt yn gofyn iddynt ddefnyddio dysgu ar-lein neu deithio i ysgolion eraill ar draws Consortiwm De Powys.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i wneud dewisiadau iach ac yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, gan gynnwys o blith ystod eang o gyfleoedd chwaraeon a ffitrwydd. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau allgyrsiol eraill, gan gynnwys ffensio, celf a gwirfoddoli yn y gymuned. Mae'r disgyblion hyn yn cymryd rhan yn frwdfrydig, er enghraifft mewn diwrnodau 'Crucial Crew' gyda'r heddwas 'Schoolbeat'. Yn ddiweddar, hyfforddwyd disgyblion chweched dosbarth fel mentoriaid cyfoedion, ac erbyn hyn, maent yn gwirfoddoli'n fuddiol i gynorthwyo disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 â gweithgareddau mathemateg heriol.

Mae'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd, a bu'n llwyddiannus wrth amlygu materion sy'n bwysig i'r holl ddisgyblion, fel creu eitemau gwisg ysgol sy'n niwtral o ran y rhywiau. Mae aelodau'r cyngor yn helpu trefnu digwyddiadau codi arian yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn ddiweddar, fe wnaethant drefnu diwrnod elusennol i godi arian ar gyfer achos da lleol, sef tîm achub mynydd Aberhonddu. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw medrau arwain disgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol ac maent wedi cael effaith gyfyngedig ar ddylanwadu ar newidiadau i addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Nid yw cyfraddau presenoldeb yn cymharu'n dda â'r rhai mewn ysgolion tebyg dros y tair blynedd ddiwethaf. Caiff hyn effaith negyddol ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion mewn gwersi.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi'i gynllunio i uchafu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth, ac mae'n rhoi ystyriaeth fuddiol i les disgyblion ac anghenion y gymuned leol. Trwy bartneriaethau cydweithredol defnyddiol o fewn y consortiwm rhanbarthol, gall yr ysgol gynnig cyrsiau mewn amaethyddiaeth a chynnal a chadw cerbydau modur yng nghyfnod allweddol 4. Hefyd, mae'r ysgol yn gweithio'n briodol mewn partneriaeth ag ysgolion lleol eraill i sicrhau bod y cwricwlwm a gynigir i fyfyrwyr yn y chweched dosbarth yn cefnogi dilyniant effeithiol ac yn diwallu eu hanghenion a bodloni eu diddordebau yn briodol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd allgyrsiol gwerth chweil fel clybiau drama, roboteg a gemau bwrdd. Yn ychwanegol, mae'n cynnig llawer o glybiau adolygu a chlybiau pwnc ar ôl yr ysgol, gan gynnwys rhai sy'n cynnig cymwysterau ychwanegol, fel cyfrifiadureg TGAU. Caiff disgyblion mwy abl a thalentog gyfle i ymgymryd â nifer o weithgareddau cyn-Seren a Seren i gyfoethogi eu profiadau dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau cyfoethogi gwerthfawr a digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, fel mynychu Ffair Yrfaoedd Powys yn rheolaidd, Gŵyl flynyddol y Gelli a dosbarthiadau meistr mathemateg ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref, ac mae llawer ohonynt yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol sy'n meithrin ymgysylltiad disgyblion â dysgu. Mae mwyafrif o athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir, ac yn cyflwyno terminoleg sy'n benodol i bwnc yn briodol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o destunau a phynciau. Mae'r athrawon hyn yn paratoi ac yn defnyddio adnoddau difyr a buddiol sy'n cefnogi dysgu disgyblion yn dda. Maent yn cynllunio amrywiaeth addas o dasgau ac ymagweddau at ddysgu, gan gynnwys cyfleoedd perthnasol ac ystyrlon i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mewn ychydig iawn o wersi, lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf, mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau difyr ac ysgogol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n herio meddwl a dealltwriaeth disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn sicrhau bod cyflymdra priodol i'r wers, sy'n cefnogi cynnydd disgyblion yn dda.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r addysgu yn ddigon effeithiol. Yn y gwersi hyn, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac nid yw eu cynllunio yn rhoi ystyriaeth ddigonol i alluoedd neu ddysgu blaenorol disgyblion. Nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau dysgu i ddarparu her briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion, ac nid ydynt yn atgyfnerthu dysgu disgyblion yn ddigon da cyn symud ymlaen i'r cam nesaf. O ganlyniad, ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau yn annibynnol.

Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio cwestiynau'n briodol i bennu gwybodaeth disgyblion, a'r ffordd maent yn galw gwybodaeth i gof. Mae'r athrawon hyn yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion i'w helpu i ddatblygu eu gwaith. Mewn tua hanner y gwersi, mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion archwilio, rhannu a datblygu eu syniadau a'u dealltwriaeth. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn defnyddio cwestiynau'n ddigon da i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion neu ymestyn eu dysgu.

Mae gormod o amrywiad o fewn adrannau ac ar eu traws o ran yr effaith a gaiff asesu ar wella gwaith disgyblion, ac yn nisgwyliadau athrawon o ymatebion disgyblion i adborth. Mae ychydig o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol a defnyddiol i ddisgyblion sy'n amlinellu llwyddiannau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn briodol i'w sylwadau ac yn gwella eu gwaith o ganlyniad. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon yn ddigon manwl, ac mae sylwadau'n arwynebol o bryd i'w gilydd.

Mae athrawon ac arweinwyr cyfadran yn nodi cyfleoedd addas i ddisgyblion ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon effeithiol ar gyfer datblygu'r medrau hynny yn gynyddol, ac yn gyffredinol, nid yw athrawon yn herio disgyblion nac yn eu galluogi i gymhwyso eu medrau yn annibynnol. Mewn ychydig o bynciau, mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys defnyddio taenlenni mewn mathemateg a meddalwedd cyfansoddi mewn cerddoriaeth.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru trwy weithgareddau, gan gynnwys eisteddfod yr ysgol. Fel rhan o waith yr ysgol i gefnogi datblygiad y Cwricwlwm i Gymru, mae athrawon wedi datblygu prosiect dyniaethau cyfoes ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3 ar hanes a daearyddiaeth yr ardal leol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion mewn gwersi ac ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant**

At ei gilydd, mae darpariaeth Ysgol Uwchradd Gwernyfed ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn hyrwyddo lles disgyblion yn briodol. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n annog ethos parchus a chynhwysol i raddau helaeth, lle gall disgyblion ffynnu. Mae pob un o'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda, ac yn cynnig rhwydwaith cymorth agos i sicrhau eu lles.

Mae'r ysgol wedi datblygu system olrhain drylwyr a defnyddiol i fonitro cynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion ar draws pob cyfnod allweddol. Mae hyn yn rhoi goruchwyliaeth gynhwysfawr i staff o berfformiad disgyblion trwy gydol y flwyddyn. Defnyddir y wybodaeth hon yn briodol i nodi'r disgyblion hynny a fydd yn elwa ar ystod addas o ymyriadau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer olrhain presenoldeb ac ymddygiad. Gwna ddefnydd addas o systemau gwaith cartref, ymddygiad a phresenoldeb ar-lein, gan alluogi staff i wobrwyo ymddygiad neu ymdrech dda. Fodd bynnag, ni chaiff olrhain a monitro eu defnyddio'n ddigon da gan arweinwyr er mwyn nodi neu werthuso strategaethau ar gyfer gwella presenoldeb disgyblion. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn parhau i fod yn rhy isel.

Mae'r adran cymorth dysgu yn cynnig darpariaeth sensitif a gofalgar ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n cynnig cymorth gwerthfawr i ddisgyblion i'w helpu i integreiddio'n effeithiol i fywyd ysgol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu hyder a theimlo'n ddiogel, ac mae'n cyfrannu at eu deilliannau cadarn. Gosodir targedau mewn cynlluniau addysg unigol yn briodol, yn unol ag anghenion unigol. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion unigol yn ofalus o fewn y cynlluniau ymyrraeth. Fodd bynnag, ni chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n ddigon effeithiol gan staff wrth gynllunio eu gwersi neu gan yr ysgol i werthuso effeithiolrwydd y gwaith hwn. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithlon ag ystod addas o asiantaethau allanol i ddarparu cymorth priodol i fynd i'r afael ag anghenion addysgol arbennig disgyblion penodol, a rhoi cymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed.

Ceir ystod eang a buddiol o weithgareddau amser cinio ac ar ôl yr ysgol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys ystod eang o weithgareddau allgyrsiol i ddatblygu medrau cymdeithasol a chreadigol disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o glybiau, gan gynnwys clybiau Gwobrau Efydd ac Arian Dug Caeredin, ysgrifennu creadigol a chlybiau codio. Mae gweithgareddau fel cynhyrchiad yr ysgol o 'School of Rock' yn Theatr Brycheiniog, digwyddiadau cerddorol a'r Eisteddfod yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygiad diwylliannol disgyblion.

Cynigir ystod eang o weithgareddau chwaraeon fel pêl-rwyd, ffensio, badminton, pêl foli, rygbi ac athletau fel rhan o ymdrechion yr ysgol i annog ffordd iach o fyw. Mae'r Grŵp Gweithredu ar Faeth yn yr Ysgol yn hyrwyddo diet iach, ond er gwaethaf ymgyrchoedd gan ddisgyblion, nid yw hyn wedi arwain at lawer o newidiadau i fwydlenni amser cinio. Mae modiwlau ABCh priodol a gyflwynir trwy wersi amserlenedig rheolaidd yn hyrwyddo agweddau ar fwyta ac yfed yn iach yn briodol, yn ogystal â datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o e-ddiogelwch, dinasyddiaeth fyd-eang a datblygu cynaliadwy.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn briodol trwy gyfnodau cofrestru, gwersi ABCh a gwasanaethau. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach trwy ymweliadau dramor. Mae'r rhain yn amrywiol ac yn cynnwys taith sgïo i Ffrainc, ymweliad â'r Ffindir yn ymwneud â chelf ac Wythnos Ryngwladol Ieuenctid yn Yr Almaen lle bu disgyblion yn trafod effaith yr argyfwng ffoaduriaid yn Ewrop.

Mae gan yr ysgol drefniadau boddhaol ar gyfer cyfathrebu â rhieni a gofalwyr trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys cylchlythyrau pob hanner tymor a chymwysiadau digidol. Mae'r rhain yn dathlu cyflawniadau disgyblion ac yn darparu nodiadau atgoffa am ddyddiadau a chyfarfodydd pwysig. Yn gyffredinol, mae cyfathrebu â rhieni yn canolbwyntio ar rybuddion a gwybodaeth, ac nid yw'n cynnig ystod eang o gyfleoedd ar gyfer barn neu adborth. Caiff rhieni wybodaeth drylwyr am gynnydd a phresenoldeb disgyblion trwy adroddiadau interim ac adroddiadau blynyddol sy'n nodi datblygu cryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu plant yn foddhaol. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, daethpwyd ag ychydig o bryderon am ddiogelu ac iechyd a diogelwch at sylw'r tîm arolygu. O ganlyniad, bydd Estyn yn cyflwyno llythyr lles i'r ysgol a'r awdurdod lleol, a fydd yn gofyn iddynt ymateb yn gyflym ac yn briodol i'r pryderon hyn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

At ei gilydd, mae cryfderau mewn llawer o agweddau ar arweinyddiaeth, ond nid ydynt wedi sicrhau gwelliannau digonol nac amserol mewn darpariaeth a safonau. O ganlyniad, mae angen gwelliant brys ar agweddau allweddol ar waith yr ysgol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio ar botensial unigol, dathlu llwyddiant, a hyrwyddo cymuned gydlynol. Rhennir yr uchelgais hon gan uwch arweinwyr, staff a rhanddeiliaid. Mae'r pennaeth wedi llwyddo i greu ethos o gymorth ar y ddwy ochr ac ymdeimlad cryf o waith tîm ymhlith staff. Fodd bynnag, nid yw cynllunio strategol yn nodi'r amcanion yn ddigon manwl na sut i gyflawni'r

weledigaeth. Mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar wella perfformiad disgyblion yng nghyfnodau allweddol 4 a 5 ond nid ydynt wedi sicrhau gwelliannau mewn meysydd pwysig, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, presenoldeb disgyblion a'r safonau y maent yn eu cyflawni ar draws yr ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda a chânt eu cefnogi'n frwdfrydig gan dîm arweinyddiaeth estynedig. Mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau. Fodd bynnag, mae'r rhychwant mawr o gyfrifoldebau y mae uwch arweinwyr yn ymgymryd â nhw yn cyfyngu ar eu gallu i fynd i'r afael yn llawn â'r materion allweddol i'w gwella.

Mae'r ysgol wedi datblygu systemau rheoli buddiol. Mae arweinwyr yn defnyddio data yn effeithiol i nodi unigolion a grwpiau o ddisgyblion sy'n tanberfformio yn unol â'u targedau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae cyfarfodydd a threfniadau rheoli perfformiad rheolaidd ar y calendr yn darparu atebolrwydd ac yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn nodi ac yn gweithredu strategaethau addas i ysgogi gwelliannau mewn agweddau a nodwyd yn y cyfarfodydd hyn, yn enwedig i wella addysgu.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ailstrwythuro arweinyddiaeth i ystyried y Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o arweiniad diweddar ac yn gweithio'n galed i archwilio ffyrdd o roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Fodd bynnag, er gwaethaf eu hymrwymiad i ddatblygu eu cyfadrannau, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o sut i ysgogi gwelliant yn eu meysydd cyfrifoldeb, ac yn benodol, o sut i wella dysgu ac addysgu.

Mae prosesau hunanwerthuso perthnasol ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau i gasglu tystiolaeth uniongyrchol o ddysgu ac addysgu a rhoi ystyriaeth addas i safbwyntiau rhanddeiliaid. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn yn ddigon cadarn i nodi meysydd i'w gwella yn ddigon clir neu fanwl. Nid yw arsylwadau gwersi yn gwerthuso effeithiolrwydd yr addysgu yn ddigonol o ran ei effaith ar gynnydd disgyblion. Mae craffu ar waith yn canolbwyntio'n ormodol ar gydymffurfio â phrosesau, yn hytrach nag ansawdd safonau a phrofiadau dysgu. O ganlyniad, mae gan arweinwyr farn rhy gadarnhaol am ddarpariaeth a safonau ar draws yr ysgol.

Mae prosesau hunanwerthuso cyfadrannau yn feichus ac nid ydynt yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon penodol. At ei gilydd, ni ddefnyddir prosesau hunanwerthuso mewn ffordd ddigon ffocysedig i nodi'n benodol yr hyn y mae angen ei wella, yn enwedig mewn addysgu. O ganlyniad, nid yw cynllunio gwelliant yn ddigon craff, ac mae'r blaenoriaethau ysgol gyfan dilynol yn rhy eang. At ei gilydd, mae cynllunio gwelliant yn wan. Mae'r rhan fwyaf o ddiffygion a nodwyd yn argymhellion yn yr adroddiad arolygu diwethaf yn parhau i fod yn broblemau.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn fedrus. Yn gyffredinol, maent yn herio'n briodol ac yn fuddiol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o waith yr ysgol. Mae'r pwyllgor sicrhau ansawdd yn craffu ar bolisïau'r ysgol yn fuddiol, ac yn dechrau gwneud gwelliannau i arferion, er enghraifft trwy awgrymu diwygiadau defnyddiol i'r polisi ymddygiad.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol addas. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau a chyfleoedd allanol i staff gydweithio o fewn grwpiau

dysgu proffesiynol a chyfadrannau.  Er enghraifft, mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol i gynllunio profiadau dysgu i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, ac mae arweinwyr canol wedi elwa ar weithio gyda'r uwch dîm arweinyddiaeth.  Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i staff ddatblygu eu medrau arwain.  Mae diwrnodau hyfforddiant ysgol gyfan yn cwmpasu ystod o faterion priodol, ar y cyfan.  Fodd bynnag, nid oes strategaeth drosfwaol i ddatblygu dysgu proffesiynol yn yr ysgol.  Hefyd, nid yw'r ysgol yn gwerthuso'i gweithgareddau dysgu proffesiynol yn ddigon trylwyr.  O ganlyniad, nid yw dysgu proffesiynol wedi cael effaith ddigonol ar ansawdd yr addysgu nac ar ddatblygu medrau yn gynyddol.

Caiff cyllideb yr ysgol ei rheoli'n rhesymol o dda.  Fodd bynnag, ni chaiff gwariant ei gyfeirio'n ddigon da tuag at fodloni nodau'r ysgol nac anghenion y disgyblion.  Ni chaiff penderfyniadau ariannol am ddiogelwch safle eu gwneud mewn modd amserol.

Mae rheolwr busnes yr ysgol yn aelod o'r uwch dîm ac yn cymryd rôl lawn mewn penderfyniadau am wariant.  Mae llywodraethwyr yn cefnogi rheoli'r gyllideb yn addas trwy'r pwyllgor cyllid.  Mae'r chweched dosbarth yn darparu gwerth am arian. Mae cyllid grant, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion, yn briodol, a chaiff ei fonitro a'i werthuso'n addas.

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol, ac ar y cyfan, caiff meysydd pwnc eu haddysgu gan arbenigwyr.  Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant lle bydd angen i gynorthwyo'r rhai sy'n addysgu y tu allan i'w harbenigedd.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/05/2020